BUDDSODDI mewn busnes lleol

Cronfa Fuddsoddi Leol De-ddwyrain Cymru yn darparu cymorth ariannol i busnesau lleol

LIF Cymru
Local Investment Fund
South East Wales
Cronfa Fuddsoddi Leol
De-ddwyrain Cymru

www.lifcymru.co.uk

LIF Cymru De-ddwyrain Cymru (Cronfa Fuddsoddi Leol De-ddwyrain Cymru)

Cynllun grant hyblyg yw Cronfa Fuddsoddi Leol De-ddwyrain Cymru (CFL) sy'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth Awdurdodau Lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.

Cafodd y prosiect ei ddatblygu gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop, o dan y Rhaglen Gydgyfeirio.

Mae'r CFL yn darparu cymorth ariannol i helpu busnesau lleol cymwys i ddatblygu a thyfu, drwy gefnogi buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf.

Ydy fy musnes i'n gymwys?
Diben penodol y Gronfa Fuddsoddi Leol yw cefnogi ystod o fusnesau bach a chanolig (BBChau). Mae'r grant ar gyfer y sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau cysylltiedig yn bennaf. Dyw'r sector manwerthu ddim yn gymwys ond gellid ystyried sectorau eraill.

Bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos bod cyfran sylweddol o'u gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fusnes i fusnes a bod ganddynt allu i 'ychwanegu gwerth' neu gynnig budd sylweddol i'r economi leol (e.e. drwy greu swyddi newydd).

Pa gymorth sydd ar gael?
Mae grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael, wedi'u seilio ar 40% o gostau cymwys y prosiect.

Gallai prosiectau cyfalaf cymwys gynnwys:

- Cyfarpar cyfalaf
- Offer TGCh
- Datblygu gwefannau
- Deunyddiau marchnata
- Gwaith a newidiadau allanol neu fewnol ar adeiladau

Nid yw gwariant a dynnir cyn i'r grant gael ei gymeradwyo yn gymwys i'w gyllido.

Ble gaf i ragor o wybodaeth?
Ewch i www.lifcymru.co.uk neu cysylltwch â'ch awdurdod lleol:

Blaenau Gwent
Uned Datblygu Economaidd
01495 355700
gwasanaethaubusnes@blaenau-gwent.gov.uk

Pen-y-bont ar Ogwr
Uned Datblygu Economaidd
01656 815315
business@bridgend.gov.uk

Caerffili
Carfan Datblygu Busnesau
01443 866222
busnes@caerffili.gov.uk

Merthyr Tudful
Uned Cymorth i Fusnesau
01685 725429
economicdevelopment@merthyr.gov.uk

Rhondda Cynon Taf
Uned Cymorth i Fusnesau
01443 495169
invest@rctcbc.gov.uk

Torfaen
Uned Cymorth i Fusnesau
01633 648371
info@torfaenbusiness.co.uk

Blaenau Gwent · Bridgend · Caerphilly · Rhondda Cynon Taf · Torfaen

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund